OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2023 Rhif 72 (Cy. 13)

# ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

## Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Lluosydd) (Cymru) 2023

*Cymeradwywyd gan Senedd Cymru ar 28 Chwefror 2023*

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *24 Ionawr 2023* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru - - - -* | *26 Ionawr 2023* |

*Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2)*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan baragraff 5(13A) o Atodlen 7 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988(**1**).

**Enwi, cychwyn a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Lluosydd) (Cymru) 2023.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym drannoeth y diwrnod y'u cymeradwyir drwy benderfyniad gan Senedd Cymru (ar yr amod y cymeradwyir y Rheoliadau hyn cyn i Senedd Cymru gymeradwyo'r adroddiad cyllid llywodraeth leol ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2023, neu cyn 1 Mawrth 2023, pa un bynnag sydd gynharaf).

(3) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "Deddf 1988" yw Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988.

**Newid i'r lluosydd ardrethu annomestig ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2023**

**2.** Ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2023—

(a) nid yw paragraff 5(5A)(a) o Atodlen 7 i Ddeddf 1988 yn gymwys;

(b) at ddiben paragraff 4B o Atodlen 7 i Ddeddf 1988, pennir mai 113.9 yw B.

*Rebecca Evans*
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru

24 Ionawr 2023

(**1**) 1988 p. 41. Mewnosodwyd paragraffau 5(13A) i 5(13C) o Atodlen 7 gan adrannau 154(1) a 154(2)(f) o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (dsc 1) ("Deddf 2021"). Mae'r paragraffau hynny yn gymwys i baragraffau 5(5A), 5(5B), 5(9A) a 5(9B) o Atodlen 7, a fewnosodwyd gan adran 154(2)(d) ac (e) o Ddeddf 2021.

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

O ran Cymru, cyfrifir y lluosydd ardrethu annomestig yn unol â'r fformiwla ym mharagraff 4B o Atodlen 7 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 ("Deddf 1988") ar gyfer blwyddyn ariannol y mae rhaid llunio rhestrau ardrethu newydd ar ddechrau'r flwyddyn ariannol honno. Mae rhestrau ardrethu newydd yn cael eu llunio ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2023 ("y flwyddyn o dan sylw").

Mae'r fformiwla ym mharagraff 4B o Atodlen 7 i Ddeddf 1988 yn cynnwys eitemau B ac C. Eitem B yw'r mynegai prisiau defnyddwyr ar gyfer mis Medi yn y flwyddyn ariannol cyn y flwyddyn o dan sylw, ac eitem C yw'r mynegai prisiau defnyddwyr ar gyfer mis Medi yn y flwyddyn ariannol sy'n dod cyn y flwyddyn ariannol cyn y flwyddyn o dan sylw. Mae paragraff 5(13A) o Atodlen 7 i Ddeddf 1988 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau i ddiwygio, diddymu neu ddatgymhwyso is-baragraffau penodol yn Atodlen 7 i Ddeddf 1988, er mwyn rhoi cyfeiriadau at fynegai arall yn lle cyfeiriadau at y mynegai prisiau defnyddwyr, neu i bennu neu ddisgrifio ffigur ar gyfer eitem B ac/neu C.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i'r flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2023, ac yn datgymhwyso paragraff 5(5A)(a) o Atodlen 7 i Ddeddf 1988. Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn pennu mai'r ffigur ar gyfer eitem B yw 113.9. Effaith hyn yw bod y lluosydd ardrethu annomestig yn parhau i fod yr un ffigur â'r ffigur hwnnw a gyfrifwyd ar gyfer y blynyddoedd ariannol yn dechrau ar 1 Ebrill 2020, 1 Ebrill 2021 a 1 Ebrill 2022.

Yn unol â pharagraff 5(13C) o Atodlen 7 i Ddeddf 1988, ni fydd y Rheoliadau hyn ond yn dod i rym os ydynt yn cael eu cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru cyn i Senedd Cymru gymeradwyo'r adroddiad cyllid llywodraeth leol ar gyfer y flwyddyn ariannol sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2023, neu cyn 1 Mawrth 2023 (pa un bynnag sydd gynharaf).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Yr Is-adran Diwygio Cyllid Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.